

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYLLID

GEN-LD6847 - Draft Budget Proposals - 2008-09

Rhagymadrodd

1. Gosododd Llywodraeth Cynulliad Cymru GEN-LD6847 - Draft Budget Proposals - 2008-09 ddydd Llun 5 Tachwedd 2007. Rhoddwyd rhagor o fanylion am y gyllideb ddrafft yn y ddogfen sy'n cyd-fynd â hi: Main Expenditure Group Allocations for Welsh Ministers 2008-09 to 2010-11 Allocations to Budget Expenditure Line.
2. Cafodd y gyllideb ddrafft ei gosod yn llawer hwyrach nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Y rheswm am hyn oedd bod Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2007 Llywodraeth y DU wedi'i orffen yn hwyr. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn ddiolchgar bod y Cynulliad wedi cadw at y pedair wythnos lawn y darperir ar eu cyfer yn y Rheolau Sefydlog i graffu ar y gyllideb ddrafft ond, serch hynny, ac o ganlyniad i'r ffaith bod yr amserlen mor dynn drwyddi draw, bu'n rhaid i'r Pwyllgor Cyllid alw tystion ar fyr rybudd. Mae'r Aelodau'n ddiolchgar i bawb am gydweithredu a chyd-ddeall.
3. Mae'r Rheolau Sefydlog yn gosod nifer o gyfrifoldebau penodol ar y Pwyllgor Cyllid, ac yn neilltuol:
 - 27.2 *Ni chaniateir gwneud cynnig yn y cyfarfod llawn mewn perthynas â chyllideb ddrafft y llywodraeth nes bod y Pwyllgor Cyllid wedi cyflwyno'i adroddiad ar y gyllideb ddrafft o dan Reol Sefydlog 27.4.*
 - 27.3 *Caiff pwyllgorau heblaw'r Pwyllgor Cyllid ystyried cyllideb ddrafft y llywodraeth a chyflwyno argymhellion i'r Pwyllgor Cyllid yn ei chylch heb fod yn hwyrach na phythefnos ar ôl iddi gael ei gosod gerbron y Cynulliad.*
 - 27.4 *Rhaid i'r Pwyllgor Cyllid ystyried y gyllideb ddrafft a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn ei chylch heb fod yn fwy na phedair wythnos ar ôl iddi gael ei gosod gerbron y Cynulliad. Rhaid i adroddiad y Pwyllgor Cyllid atodi unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Cyllid wedi'u cael gan bwyllgorau eraill.*
4. Mae Rheol Sefydlog 27.4 yn pennu'r dyddiad cau ar gyfer adroddiad y Pwyllgor Cyllid i'r Cynulliad, sef 3 Rhagfyr. Dyma gyfnod byr iawn i gyflwyno adroddiad ynddo ac, yn yr amser cyfyngedig a oedd ar gael iddo, aeth y Pwyllgor Cyllid ati o reidrwydd i graffu ar y gyllideb mewn ffordd benodol iawn. Roedd ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft yn golygu cymryd tystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid a'i swyddogion ar 8 Tachwedd; gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a chynrychiolwyr cyfarwyddwyr cyllid y GIG a'r Byrddau Iechyd Lleol ar 13 Tachwedd. Ystyriodd y Pwyllgor Cyllid hefyd sylwadau gan Bwyllgorau eraill y Cynulliad yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd ac, yn unol â Rheol Sefydlog 27.4, mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiad yr adroddiad hwn. Cafodd y Pwyllgor Cyllid ragor o dystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth y Gweinidog, ychydig cyn ail gyfarfod y Pwyllgor gydag ef ar 27 Tachwedd, a chafodd rhagor o wybodaeth ei

gynnig yn ystod y trafod ond adeg drafftio'r adroddiad hwn nid oedd wedi dod i law.

Y Prif Adroddiad

5. Nid yw'r Pwyllgor Cyllid yn bwriadu cynnig cyllideb amgen ond mae'n dymuno tynnu sylw at nifer o faterion y mae ganddo bryderon yn eu cylch, gan hyderu y bydd y Gweinidog yn cymryd y rhain i ystyriaeth wrth lunio'i gyllideb derfynol.
6. Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r Cynulliad fod â Phwyllgor Cyllid i graffu ar y gyllideb ac mae'n cyd-ddigwydd â gweithdrefnau newydd sy'n angenrheidiol oherwydd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a'r Rheolau Sefydlog diwygiedig. Mae'r broses o graffu ar y gyllideb wedi bod yn anodd a hynny oherwydd pryderon am yr wybodaeth a roddwyd a rhywfaint o ansicrwydd (dealladwy) am rolau'r gwahanol bwllgorau sy'n rhan o'r broses. Cymhlethwyd y sefyllfa gan yr amser cyfyngedig a oedd ar gael i bwysu a mesur y gyllideb a chan yr anawsterau a oedd yn wynebu rhai o'r pwyllgorau o ran sicrhau amser yn nyddiaduron y Gweinidogion i roi tystiolaeth. **Yng ngoleuni ei brofiad, bydd y Pwyllgor Cyllid yn ystyried sut y mae'r gweithdrefnau hyn wedi gweithio yn ymarferol, gyda golwg ar gynhyrchu adroddiad ar wahân ar broses y gyllideb ar ôl i'r cylch cyfredol gael ei gwblhau. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn argymhell yn gryf fod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i broses y gyllideb yn nyddiaduron y Gweinidogion a'r pwyllgorau yn y dyfodol, a hynny er mwyn sicrhau bod digon o amser yn cael ei ddarparu ar gyfer gwaith craffu digonol.**
7. **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i gytuno ar brotocol¹ ar gyfer proses y gyllideb a fydd yn ategu gofynion bras y Rheolau Sefydlog. Dylai hyn helpu i roi sylw i rai o'r anawsterau a gafwyd yn y cylch cyllideb presennol.**
8. Mae'r Pwyllgor Cyllid o'r farn na ddylai cyllidebu gael ei weld fel un digwyddiad unigol bob blwyddyn a'i bod yn bwysig i'r Pwyllgor Cyllid gadw golwg gyffredinol ar y newidiadau a wneir yn ystod y flwyddyn, a deall y ffactorau y tu ôl i'r newidiadau hyn a'u heffaith ar y rhaglenni. **Gan hynny, mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu cytundeb y Gweinidog i roi adroddiadau ar gynydd i'r Pwyllgor ar adegau allweddol² yn ystod y flwyddyn er mwyn i'r Pwyllgor gael yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau yn y patrymau gwario.**
9. At ei gilydd, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi canolbwyntio ar ymagwedd strategol y Llywodraeth at gynllunio'r gyllideb a'i rheoli. Cyfrifoldeb Pwyllgorau eraill yn bennaf yw craffu ar gyllidebau'r portffolios unigol, ac mae eu canfyddiadau nhw ar gael mewn atodiad i'r adroddiad hwn.

Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2007

10. Mae'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar gyfer 2007 a gyhoeddwyd ar 9 Hydref wedi arwain at ddyraniadau ychwanegol yn Nherfyn Gwariant Adrannol (DEL) cyllideb y bloc Cymreig o £684 miliwn yn 2008-09 (heb gynnwys dibrisiant) gan godi i £1,376 miliwn yn 2009-10 a £2,184 miliwn yn 2010-11. Mae'r codiadau hyn wedi'u gosod yn erbyn gwaelodlin ddiwygiedig ar gyfer 2007-08 o £13,588 miliwn, sef rhyw £200 miliwn yn is na'r swm gwirioneddol a ddyrannwyd ar gyfer y flwyddyn honno. Mae'r gostyngiad hwn yn deillio o'r ffaith bod y Trysorlys wedi cymhwyso fformwla Barnett at danwariant, a thoriad oherwydd hynny, yn yraniad yr Adran Iechyd ar gyfer 2007-08.

11. Dywedodd Datganiad y Gweinidog Cyllid³ a gyhoeddwyd ar yr un diwrnod fod y ffigurau a gyhoeddwyd yn dangos y bydd Cymru'n cael cynnydd mewn termau real cyfartalog yn ei DEL o 2.4% y flwyddyn yn y cyfnod 2008-09 ond bod y ganran honno wedi'i seilio ar y waelodlin ddiwygiedig. Ar sail dyraniad gwirioneddol 2007-08 o £13,813 miliwn⁴ y cynnydd canrannol mewn termau real yw 1.8% y flwyddyn. Ar gyfer 2008-09, y cynnydd yn y DEL ar sail dyraniad gwirioneddol 2007-08 yw £329 miliwn. O hynny, defnyddir rhyw £200 miliwn⁵ ar godiadau yn nhâl y sector cyhoeddus, gan adael dim ond £129 miliwn ac unrhyw arbedion effeithlonrwydd a geir yn ystod y flwyddyn i ddarparu ar gyfer chwyddiant ar wariant refeniw a gwariant cyfalaf arall yn ogystal ag unrhyw wariant newydd sydd wedi'i gynllunio.
12. Dywedodd Datganiad y Gweinidog ar 9 Hydref⁶ hefyd fod angen iddo gael rhagor o drafodaethau gyda'r Trysorlys i egluro mater y waelodlin lle'r oedd yna bryderon difrifol o hyd ynglŷn â'r addasiadau. Er hynny, ar 8 Tachwedd, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Cyllid y byddem yn dal i gael cynnydd o 1.8 y cant pe na bai'r gostyngiadau yn y waelodlin wedi digwydd; y byddai'r Trysorlys a Llywodraeth y Cynulliad yn cytuno mai cynnydd o 1.8 y cant a geid; ac nad oedd y gostyngiadau yn y waelodlin yn effeithio ar ein cynlluniau gwario mewn unrhyw fodd. Er bod y Pwyllgor Cyllid yn deall bod y Trysorlys wedi seilio'u dyraniad "Fformwla Barnett" i Gymru ar y symiau gwirioneddol a ddyrannwyd i'r Adran Iechyd a'r adrannau eraill dros y tair blynedd sydd o dan sylw yn yr adolygiad o wariant, mae'n dal i ofidio ynglŷn â'r newid meddwl a gafodd y Gweinidog yn ôl pob golwg rhwng 9 Hydref pan oedd ganddo "bryderon difrifol ynglŷn â'r addasiadau"⁷ a 8 Tachwedd pan amddiffynnodd ymagwedd y Trysorlys.⁸ **Hoffai'r Pwyllgor Cyllid gael esboniad ar hyn.**
13. Dyrannodd Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2007 £3.623 biliwn o gyllid hefyd dros y tair blynedd nesaf i dair adran o'r llywodraeth mewn perthynas â datblygu Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012. Mae'r Trysorlys wedi trin hyn fel gwariant sydd heb ei ddatganoli a does dim dyraniad cyfatebol wedi'i roi i Gymru drwy Fformwla Barnett. Nid yw'r ymagwedd hon yn gyson â chyllid y Trysorlys ar gyfer prosiectau seilwaith eraill megis Llinell y Jiwbilf a phrosiect arfaethedig "Cross rail" lle cafodd Cymru neu lle caiff Cymru ei dyraniad llawn drwy gyfrwng Fformwla Barnett. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Cyllid ei fod yn anghytuno â safbwynt y Trysorlys ar y mater hwn.⁹ Mae'r Aelodau'n cytuno'n llawn â'r Gweinidog a hoffent wybod y rhesymau am yr ymagwedd sydd wedi'i harddel gan y Trysorlys, sy'n golygu bod Cymru wedi colli cyllid ychwanegol y mae mawr angen amdano. **Hoffai'r Pwyllgor Cyllid i'r Gweinidog roi rhagor o wybodaeth am y mater hwn.**

Buddsoddiadau Cyfalaf

14. Wrth gyhoeddi ei gyllideb, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid ymagwedd fwy strategol at fuddsoddiadau cyfalaf, gan ganolbwyntio ar y blaenoriaethau allweddol a'u hategu â mwy na £400 miliwn dros dair blynedd. Câi'r ymagwedd hon ei hategu drwy greu "Bwrdd Buddsoddiadau Cyfalaf Strategol (SCIB)".¹⁰ Siom i'r Pwyllgor Cyllid oedd na allai'r Gweinidog roi dim gwybodaeth am sut y gallai hyn weithio, gan ddweud dim ond bod strwythur, aelodaeth a phrosesau'r Bwrdd yn dal i gael eu datblygu.¹¹ **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn galw am ragor o fanylion am y trefniadau gan gynnwys amserlen, cyfansoddiad arfaethedig y Bwrdd a'r meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn nodi barn y Gweinidog y bydd y gyfundrefn newydd yn**

hyblyg ac na fydd yn creu oedi tra bydd adrannau'n cystadlu yn erbyn ei gilydd am adnoddau. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu monitro gwaith y Bwrdd yn ofalus yn y blynyddoedd i ddod.

15. Yn y gyllideb ddrafft, mae £400 miliwn wedi'i ychwanegu at y cronfeydd wrth gefn ac, o ganlyniad i hynny, mae'r dyraniadau cyfalaf i'r adrannau wedi'u ffrwyno dros y cyfnod o dair blynedd. **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gofyn am sicrwydd y bydd canlyniadau ystyriaethau'r Bwrdd yn cael eu cyhoeddi a'u cysylltu'n glir â'r dyraniadau i'r adrannau a'r prosiectau a geir yn eu sgil a hynny yn y papurau a fydd yn ategu'r gyllideb ac mewn cynigion cyllideb atodol.**
16. Er gwaethaf y mecanweithiau ar gyfer dyrannu gwariant cyfalaf, mae'r Pwyllgor Cyllid yn gofidio ei bod yn ymddangos y bydd cyfanswm y galwadau ar gyllidebau cyfalaf y Cynulliad gryn dipyn yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cydnabod y gall arian ar gyfer cyfalaf ddod o amryw o ffynonellau, gan gynnwys cronfeydd strwythurol Ewrop. Mae hefyd yn cydnabod bod y Gweinidog yn symud yn ei flaen yn ddoeth ac na all ddibynnu ar gronfeydd strwythurol Ewrop nes eu bod wedi'u cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Ar y llaw arall, yn niffyg amcangyfrif o lefel yr incwm o ffynonellau o'r fath, mae'n ymddangos bod y gyllideb ddrafft yn amlygu prinder o bwys.
17. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cydnabod yr anawsterau sy'n wynebu'r Gweinidog yn hyn o beth, ond dyma faes holl-bwysig yng ngwariant y Cynulliad a byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth oddi wrth y Gweinidog am sut y caiff rhaglen gyfalaf y Llywodraeth ei hariannu. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn credu bod y ffigurau a gyflwynwyd yn dangos prinder arwyddocaol yn y cyllid cyfalaf a fydd ar gael pan gymerir i ystyriaeth y dagfa o waith cynnal-a-chadw mewn meysydd allweddol ym mholisi'r Llywodraeth. **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn bwriadu ystyried rhaglenni cyfalaf yn fanylach fel rhan o'i raglen waith at y dyfodol.**

Cronfeydd wrth gefn

18. Mae'r tabl canlynol wedi'i seilio ar ffigurau o'r gyllideb ddrafft ac amcangyfrifon o ddyraniadau cyfalaf a gynhwyswyd yn y cronfeydd wrth gefn a ddarparwyd gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Cyfanswm y dyraniad cyfalaf yw £338 miliwn, sy'n llai na'r £400 miliwn dros dair blynedd a grybwyllwyd gan y Gweinidog ac sydd wedi'i ddyrannu i'r Bwrdd Buddsoddiadau Cyfalaf Strategol. **Mae hyn yn awgrymu bod y gweddill eisoes wedi'i ddyrannu i bortffolios y Gweinidogion, a byddai'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu esboniad ar sut mae hynny wedi'i wneud.**

Canrannau'r cronfeydd wrth gefn sydd heb eu dyrannu

	2008-09	2009-10	2010-11
			<i>£000</i>
Terfynau Gwariant Adranol (DEL) (heb gynnwys Swyddfa Cymru)	14,551,929	15,243,610	16,056,389
Cyfanswm y cronfeydd heb eu dyrannu (o'r Cynigion Cyllideb Drafft)	135,986	426,798	845,909
ac o hynny - Cyfalaf	0	92,486	245,521
Gweddill y cronfeydd heb eu dyrannu	135,986	334,312	600,388
Gweddill y cronfeydd heb eu dyrannu fel canran o'r DEL ¹	0.9	2.2	3.7

Ffynhonnell: Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o ffigurau Llywodraeth y Cynulliad

¹ Esboniodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad fod y canrannau hyn yn wahanol i ganrannau'r Gweinidog yn ei dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor gan fod ei gyfrifiadau wedi hepgor unrhyw elfennau heblaw arian parod

19. Gosododd cynnig cyllideb 2007-08 a basiwyd ym mis Rhagfyr 2006 gronfa wrth gefn o £149 miliwn neu 1% o'r DEL a dyrannwyd gan y Trysorlys. £136 miliwn yw'r ffigur cyfatebol yng nghyllideb ddrafft 2008-09. Mae'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2009-10 a 2010-11 yn codi i £427 miliwn ac £846 miliwn yn y drefn honno ond mae'r rhain yn cael eu cymylu drwy gynnwys gwariant cyfalaf sydd i'w ddyrannu gan y Bwrdd Buddsoddiadau Cyfalaf Strategol. Diben cronfa wrth gefn yw neilltuo swm ar gyfer argyfyngau a digwyddiadau annisgwyl eraill a fyddai'n effeithio ar y gyllideb ac a allai godi yn ystod y flwyddyn, ac ni ddylai gael ei chymysgu â gwariant cyfalaf cynlluniedig. **Gan hynny, mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu addewid¹³ y Gweinidog y bydd yn dangos y gwariant cyfalaf strategol a neilltuwyd ar gyfer y Bwrdd hwnnw ar linell ar wahân yn y gyllideb derfynol er mwyn datgelu'r symiau gwirioneddol sydd wedi'u neilltuo ar gyfer argyfyngau.**
20. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn awyddus hefyd i sicrhau y bydd lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn y dyfodol yn cael eu seilio ar ddoethineb ariannol. Roedd y Gweinidog Cyllid blaenorol o'r farn bod "reserves are maintained as part of our prudent approach to financial management"¹⁴ ac roedd ganddo "target of maintaining a reserve of one percent of the budget as a necessary precaution to met the risks on the budget in the coming year"¹⁵.
21. Yn y cyd-destun hwn, roedd yr Aelodau'n gofidio ynglŷn â'r gostyngiad o £13 miliwn yn y cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2008-09 er eu bod yn derbyn bod angen i'r symiau heb eu gwario a gariwyd drosodd o 2007-08 o dan gyfundrefn Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn (EYF) y Trysorlys gael eu cymryd i ystyriaeth. Er hynny, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Cyllid fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn eithriadol o effeithlon wrth reoli grant bloc y Cynulliad a'i bod, yn ddiethriadol bron, yn yr wyth mlynedd cyntaf, wedi gwario tua 99 y cant neu fwy o'n dyraniadau.¹⁶ **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi bod lefel y cronfeydd wrth gefn wedi'i gosod yn y gorffennol ar 1% a byddai'n croesawu datganiad gan y Gweinidog ar lefel ddelfrydol y cronfeydd wrth gefn y mae'n credu y dylai gael ei chadw o'r naill flwyddyn i'r llall ac ar ei gynlluniau ar gyfer cyrraedd y lefel honno. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn galw ar y Gweinidog hefyd i gadarnhau ar wahân y symiau sy'n cael eu cadw wrth gefn ar gyfer referniw a chyfalaf (heb gynnwys y symiau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer gwariant cynlluniedig gan y Bwrdd Buddsoddiadau Cyfalaf Strategol).**

Cymru'n Un

22. Mewn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor Cyllid ar gost rhaglen y Llywodraeth, 'Cymru'n Un', roedd y Gweinidog Cyllid yn awyddus iawn i esbonio nad oes gwariant ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad a gwariant ar gyfer 'Cymru'n Un' ar wahân. Caiff y gyllideb gyfan ei buddsoddi i wireddu rhaglen 'Cymru'n Un'.¹⁷ Mae'n debyg y bydd llawer o ymrwymadau rhaglen 'Cymru'n Un' yn cael eu gwireddu drwy gyfrwng cydweithio rhwng gwahanol adrannau yn Llywodraeth y Cynulliad a chyrrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys llywodraeth leol. Felly, mewn rhai meysydd, mae'n bosibl y bydd y Llywodraeth yn gallu bod yn eglur ynghylch gwariant ar ymrwymadau unigol neu benodol, ond fydd hynny ddim yn wir am bob un ohonynt. Yn benodol, mae dogfen Cymru'n Un yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu byrddau a chytundebau gwasanaethau lleol, gan gynnwys ymrwymiad i gyfuno cyllidebau.
23. Mae'r Pwyllgor Cyllid o'r farn y dylai fod modd cyflwyno cyllideb sy'n gallu cael ei halinio'n glir ag amcanion strategol y Llywodraeth. Fyddai hynny ddim yn golygu

newid fformat dogfennau ffurfiol y gyllideb ond fe allai fod angen rhywfaint o ddadansoddi pellach ar y gyllideb (i ddangos cost gwireddu pob amcan strategol) drwy gyfrwng esboniad.

24. Nid yw'r Pwyllgor Cyllid wedi gweld tystiolaeth eto sy'n dangos bod modd i ymrwymadau "Cymru'n Un" gael eu bodloni o safbwynt ariannol ac mae'n disgwyl cael rhagor o wybodaeth ar ba bolisiau a gaiff flaenoriaeth a pha rai fydd yn brosiectau peilot yn unig, ynghyd â chostiadau ariannol bras i bob polisi. **Derbyniodd y Gweinidog y byddai o gymorth i'r Pwyllgor Cyllid ac i'r Llywodraeth yn y dyfodol pe bai modd archwilio'r cynnydd drwy wneud cysylltiad clir rhwng yr amcanion polisi strategol a llinellau penodol yn y gyllideb.**¹⁸ **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn disgwyl i hyn gael ei wneud ymhell cyn y cylch cyllideb nesaf.**

Arbedion Effeithlonrwydd

25. Yn y ddogfen "Creu'r Cysylltiadau", ymrwymodd y Llywodraeth i sicrhau arbedion o £600 miliwn o ran gwerth am arian, ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru erbyn 2010.¹⁹ Byddai hynny'n golygu bod rhaid i sefydliadau'r sector cyhoeddus ddod o hyd i enillion gwerth am arian o 1% o leiaf ar sail gylchol ym mhob un o'r blynyddoedd sy'n dechrau yn 2005-06. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Cyllid fod y Llywodraeth yn credu bod hyd yn oed mwy o le i sicrhau mwy o effeithlonrwydd, ac y byddai'n gweithio gyda chydweithwyr ar sut i'w sicrhau. Mae'r gwaith hwnnw'n mynd yn ei flaen. **Nid yw'r Pwyllgor Cyllid yn glir ynglŷn â lefel yr arbedion effeithlonrwydd y mae'r Gweinidog Cyllid yn disgwyl ei sicrhau ac mae'n galw arno i ddarparu rhagolygon manwl ynghyd â thystiolaeth i ddangos bod modd eu gwireddu.**
26. Yng ngoleuni'r ffaith bod yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant mor dynn, mae'r Pwyllgor Cyllid yn cytuno â'r Gweinidog fod rhaid inni sicrhau mwy o'r bunt Gymreig.²⁰ ac mai nid faint yr ydym yn ei wario yw'r cwestiwn, ond yn hytrach sut yr ydym yn ei wario a pha ganlyniadau sy'n cael eu sicrhau. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig gosod mwy byth o bwyslais ar aneffeithlonrwydd a chael holl gyrrff y sector cyhoeddus i godi eu safonau. **Mae'r Pwyllgor Cyllid o'r farn mai nawr yw'r amser i adolygu'r cynnydd ar 'Creu'r Cysylltiadau' gyda golwg ar sefydlu targedau effeithlonrwydd archwiliadwy diwygiedig ac rydym yn edrych ymlaen at wybod canlyniadau'r gwaith yn y maes hwn sy'n mynd yn ei flaen.**

Ymdrin â chwyddiant

27. Teimlai'r Pwyllgor Cyllid fod y ffordd y cyflwynwyd y gyllideb yn peri dryswch. **I hybu eglurder, dylai'r Llywodraeth ddarparu o leiaf godiadau canrannol ar gyfer ffigurau'r Prif Grwpiau Gwariant, a hynny mewn termau real ac absoliwt. Byddai hynny'n caniatáu trafodaeth fwy gwybodus ar y newidiadau gwirioneddol ym mhorthffolios y Gweinidogion. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn galw am nodiadau a ffigurau pendant i gysoni'r gwaelodlinau y mae'r Llywodraeth yn eu defnyddio, gan nad yw'n ymddangos bod y rhain yn cyfateb i'r data arall sydd ar gael.**

Yr adrannau gwario

28. Cafodd y pwynt ei wneud gan y Gweinidog Cyllid sawl tro mai mater i'r Gweinidogion sy'n gyfrifol amdany'n nhw yw'r penderfyniadau gwario yn yr

adrannau unigol.²¹ Mae'r Gweinidogion hynny wedi rhoi, neu am roi, tystiolaeth i'r priod bwyllgorau craffu ac mae eu canfyddiadau ar y gyllideb ddrafft wedi'u cynnwys mewn atodiad i'r adroddiad hwn. Gan hynny, dim ond materion sy'n gymwys yn gyffredinol neu sy'n peri pryder yn gyffredinol sydd o dan sylw yn y paragraffau isod. Mae nifer o'r pwyllgorau wedi cyflwyno sylwadau ar broses y gyllideb ac, yn benodol, ar yr amser sydd ar gael ar gyfer eu cyfraniad nhw. **Caiff y rhain eu hystyried gan y Pwyllgor Cyllid fel rhan o'r adolygiad o broses y gyllideb sydd ar y gweill ganddo.**

Llywodraeth leol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

29. Nid oedd yr amser a roddwyd i graffu ar y gyllideb ddrafft yn caniatáu i unrhyw lefel arwyddocaol o dystiolaeth gael ei chymryd oddi wrth lywodraeth leol na'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Yn yr un modd, ychydig yn unig o amser oedd ar gael i'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol edrych ar y ddwy gyllideb bwysig hyn. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi bod y Pwyllgor hwnnw wedi dod i gasgliadau tebyg i eiddo'r Pwyllgor Cyllid ei hun mewn nifer o feysydd.²² - yn enwedig felly mor anodd yw alinio amcanion y gyllideb ag amcanion dogfen Cymru'n Un. Mae'r angen am gysylltiadau clir yn bwysicach byth o gofio setliad tynn y CSR a chynlluniau gwariant y Gweinidog - ac yn arbennig lefel y cyllid i lywodraeth leol sydd wedi peri llawer o bryder ledled Cymru.
30. Mae'r pryder hwn yn cynyddu yn sgil y dystiolaeth a roddwyd gan CLILC y byddai'n anodd, o gofio lefel arfaethedig y cyllid, cyflwyno'r gwasanaethau craidd²³ heb sôn am gyrraedd y targedau newydd a ddisgwyliid o dan raglen Cymru'n Un heb gynnydd annerbyniol yn lefelau'r dreth gyngor. Daeth CLILC â'i thystiolaeth i ben drwy wneud ple arbennig ar ran yr awdurdodau lleol sy'n disgwyl cael setliadau o lai nag 1.5%.²⁴ **Mae gan y Pwyllgor Cyllid bryderon difrifol bod setliad cyfredol llywodraeth leol yn annigonol i ariannu'r gwasanaethau craidd ac mae'n gofyn i'r Gweinidog adolygu cyfanswm yr arian.**
31. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn edrych ymlaen at y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Llywodraeth i ddangos y cysylltiadau rhwng y gyllideb a Chymru'n Un ac at y dadansoddiad manylach y bydd hynny'n ei roi o'r gallu i gyrraedd targedau Cymru'n Un. Ymhellach, mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gadw at ysbryd cytundeb Rhagfyr 2003 bod rhaid i fentrau a chyfrifoldebau newydd gael eu hariannu'n llawn cyn cael eu trosglwyddo i lywodraeth leol.²⁵ **Gan hynny, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r Gweinidog sicrhau y bydd yna eglurder rhwng unrhyw ofynion newydd a gaiff eu gosod ar lywodraeth leol - gan gynnwys y rhai sydd i'w rhoi gan Gymru'n Un - a'r cynnydd mewn arian a fydd yn deillio ohonynt.**
32. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn rhannu pryderon y gymuned iechyd ac addysg uwch ynglŷn ag arian ar gyfer ymchwilio a datblygu meddygol ac mae'n dda gan y Pwyllgor nodi'r ymrwymadau ariannol diweddar sydd wedi'u rhoi yn hyn o beth gan Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
33. Cododd cynrychiolwyr y gwasanaeth iechyd gwestiwn "dyfarniad Grogan"²⁶ a'r cyfrifoldebau ariannol ychwanegol sy'n cael eu rhoi ar gyrrff yn y GIG yn ei sgil. **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn dymuno gwybod sut mae'r Gweinidog Cyllid wedi mynd ati i daro'r cydbwysedd priodol rhwng arian ar gyfer iechyd a**

gwasanaethau cymdeithasol wrth wneud dyraniadau rhwng cyllidebau'r GIG a'r awdurdodau lleol.

34. Mynegodd y cynrychiolwyr bryder hefyd ynghylch gallu cyrff yn y GIG i dalu costau rhai o'r therapiau cyffuriau newydd, uchel eu proffil, sy'n cael eu cymeradwyo gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE).²⁷ Cyfeiriodd y cynrychiolwyr, er enghraifft, at y cyffur newydd Lucentis a fydd, o'i gymeradwyo gan NICE, yn arwain at gostau a aiff yn ddegau o miliynau o bunnoedd ar draws y GIG yng Nghymru.
35. Cafodd y Pwyllgor Cyllid fraw hefyd yn sgil sylwadau cynrychiolwyr y GIG na fyddai modd gwireddu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau rhestrau aros heb gynllun yr 'ail gynnig'.²⁸ **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gofyn am sicrhad gan y Gweinidog Cyllid fod cyllideb y GIG wedi'i chynllunio mewn modd priodol i wireddu polisiau'r Llywodraeth.**

Treftadaeth

36. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi sylwadau'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar gynlluniau gwario'r gweinidog Treftadaeth.²⁹ O ran y cytundeb i gynyddu arian blynyddol Canolfan Mileniwm Cymru a thalu dyledion y Ganolfan, mae'r Pwyllgor Cyllid yn cytuno nad oedd gan y Gweinidog ddewis ond helpu'r Ganolfan fel hyn y tro hwn. **Er hynny, mae'r Pwyllgor Cyllid am ei gwneud yn gwbl glir i sefydliadau sy'n cael cymorth drwy gyfrwng arian y trethdalwyr y dylent gynllunio'n realistig ac na ddylid disgwyl yn awtomatig y bydd y Cynulliad yn fodlon ariannu diffygion yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn dymuno gwybod pa drefniadau sydd wedi'u gwneud i fonitro sefyllfa ariannol Canolfan y Mileniwm.**

Materion Cydraddoldeb

37. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi ceisio osgoi cael ei dynnu i drafodaethau am ragoriaethau ariannu'r naill raglen o'i chymharu â'r llall ac mae Pwyllgorau eraill mewn gwell sefyllfa i asesu haeddiannau'r rhain. Er hynny, mae sylw'r Pwyllgor Cyllid wedi'i dynnu at y Datganiad Barn OPIN-2007- 0082 - Mae Plant Anabl yn Bwysig/Disabled Children Matter, sydd wedi'i lofnodi gan 31 o Aelodau'r Cynulliad. Mae'n galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i warantu y bydd yr £21m sy'n dilyn "Aiming High for Disabled Children: Better Support for Families" yn cael ei neilltuo i helpu plant anabl a'u teuluoedd yng Nghymru. Mewn nodyn maith i'r Pwyllgor Cyllid,³⁰ nododd y Gweinidog y sail y mae'r Cynulliad yn ymdrin â 'symiau canlyniadol' Barnett arni, a bod natur y setliad datganoli yn golygu nad yw'n ofynnol i'r symiau hyn gael eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau a greodd yr arian yn Lloegr. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi'r pwynt hwn ond mae'n synnu nad yw'r Gweinidog yn teimlo y dylid rhoi mwy o bwysau na hyn i farn a fynegwyd mewn datganiad a ategwyd gan gynifer o Aelodau'r Cynulliad. **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog ailystyried y mater hwn gyda golwg ar drefnu bod o leiaf yr £21 miliwn ar gael i'w wario ar wasanaethau i blant anabl dros y tair blynedd nesaf.**
38. Ochr yn ochr â'r mater penodol hwn, mynegwyd pryder yn y Pwyllgor Cyllid am yr anhawster wrth nodi'r camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi sylw i broblemau tlodi plant. Dywedodd y Gweinidog mai'r rheswm am hyn oedd bod amrywiol elfennau'r rhaglen yn cael eu rhannu rhwng nifer o Adrannau a'i bod yn aml yn anodd iawn adnabod y rhannau, a'r arian a oedd yn

canolbwyntio ar dlodi plant...³¹ **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu cytundeb y Gweinidog i gynhyrchu dadansoddiad archwiliadwy o'r wybodaeth a all gael ei darparu am y rhaglenni hyn ac mae'n galw am gael y dadansoddiad erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.**

Diogelwch Cymunedau

39. Mynegwyd pryder yn y Pwyllgor Cyllid am y cyllid statig ar gyfer diogelwch cymunedau a hynny yn llinell gyfalaf a llinell refeniw'r gyllideb dros y tair blynedd nesaf, yn enwedig yng nghyd-destun yr unedau ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi'u haddo i ardal pob un o'r awdurdodau lleol...³² **Cytunodd y Gweinidog y byddai'n darparu nodyn ar y pwynt hwn. Hoffai'r Pwyllgor Cyllid gael rhagor o eglurhad ar linellau'r gyllideb a sut y caiff yr unedau arfaethedig eu sicrhau, yng ngoleuni'r cyllidebau statig.**

Diweddgo

40. Mae hon wedi bod yn gyllideb anodd i'w llunio ac un anodd i graffu arni, o gofio iddi gael ei phennu yn erbyn y setliad CSR tynnaf ers dyfodiad llywodraeth ddatganoledig. Mae gan y Pwyllgor Cyllid bryderon o ran pa mor deg yw'r setliad hwnw ac, yn benodol, am sut mae'r Trysorlys wedi dehongli'r ffordd i gymhwyso fformwla Barnett at ddyraniadau penodol i adrannau'r llywodraeth yn Lloegr. Mae'r pryderon hyn yn cael eu dwysáu gan ddiffyg eglurder ynghylch nifer o agweddau ar gyllideb y Gweinidog Cyllid gan gynnwys sut y bydd y Bwrdd Buddsoddiadau Cyfalaf Strategol yn gweithredu, pa lefel o gronfeydd wrth gefn sy'n ddymunol er mwyn cynnal doethineb ariannol a pha lefel o arbedion effeithlonrwydd a ddisgwyllir.
41. Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn rhannu pryderon cymuned llywodraeth leol ynglŷn â'r gallu i gynnal y gwasanaethau craidd, a gallu cymuned y GIG i dalu cost therapïau cyffuriau uchel eu proffil ac ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau amserau aros.
42. Yn olaf, mae'r Pwyllgor Cyllid yn galw am eglurder ynghylch lefel yr arian yn y gyllideb i roi sylw i'r pryderon difrifol sydd wedi'u mynegi am gymorth i blant anabl, diogelwch cymunedau a thlodi plant.
- 43. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn annog y Llywodraeth i ystyried yr argymhellion sydd wedi'u gwneud yn yr adroddiad hwn a gweithredu arnynt.**

Alun Cairns AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Cyfeiriadau

- ¹ Papur Pwyllgor: FIN(3) 03-07 (p1) paragraff 7
- ² Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 27 Tachwedd 2007
- ³ Datganiad y Gweinidog 9 Hydref 2007
- ⁴ Wedi'i godi o Adroddiad Blynyddol Swyddfa Cymru Mai 2007 (Atodiad 3)
- ⁵ Wrth ymateb i gwestiynau, nododd y swyddogion mai amcangyfrif bras oedd y ffigur hwn a'i fod yn dibynnu ar lawer o newidynnau, o gofio bod y mwyafrif o setliadau tâl y sector cyhoeddus ymhell o gael eu cwblhau.
- ⁶ Datganiad y Gweinidog 9 Hydref 2007
- ⁷ Datganiad y Gweinidog 9 Hydref 2007
- ⁸ Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 8 Tachwedd 2007 [52] [54]
- ⁹ Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 8 Tachwedd 2007 [77]
- ¹⁰ Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 8 Tachwedd 2007 [100]
- ¹¹ Papur Pwyllgor: FIN(3) 08-07 (p1a) paragraff 3.4
- ¹² Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 8 Tachwedd 2007 [107]
- ¹³ Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 8 Tachwedd 2007 [108] [112]
- ¹⁴ Cofnod y Trafodion: 13 Rhagfyr 2006
- ¹⁵ Cofnod y Trafodion: 7 Chwefror 2007
- ¹⁶ Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 8 Tachwedd 2007 [25]
- ¹⁷ Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 8 Tachwedd 2007 [144]
- ¹⁸ Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 8 Tachwedd 2007 [145-146]
- ¹⁹ Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 8 Tachwedd 2007 [173]
- ²⁰ Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 8 Tachwedd 2007 [173]
- ²¹ Er enghraifft, Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 8 Tachwedd 2007 [209] [211] [223]; Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 27 Tachwedd 2007
- ²² Er enghraifft, Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 8 Tachwedd 2007 [209] [211] [223]; Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 27 Tachwedd 2007
- ²³ Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 13 Tachwedd 2007 [133-135] [139]
- ²⁴ Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 13 Tachwedd 2007 [185]
- ²⁵ Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 27 Tachwedd 2007
- ²⁶ Papur Pwyllgor: FIN(3) 06-07 (p6); Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 13 Tachwedd 2007 [194] [214] [216]
- ²⁷ Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 13 Tachwedd 2007 [196] [201] [295]
- ²⁸ Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 13 Tachwedd 2007 [241]
- ²⁹ Papur Pwyllgor: FIN(3) 07-07 (p5)
- ³⁰ Papur Pwyllgor: FIN(3) 08-07 (p1a)
- ³¹ Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 27 Tachwedd 2007
- ³² Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Cyllid 27 Tachwedd 2007

Annex: Representations and recommendations made by other Assembly Committees

Equality of Opportunity Committee

Pwyllgor Cyfle Cyfartal

Alun Cairns AM
Chair
Finance Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

16 November 2007

Dear Alun

At its meeting on 8 November, the Equality of Opportunity Committee considered the draft budget proposals 2008-09 and would wish to make the following recommendations:

- The draft budget should reflect the Welsh Assembly Government's commitment to deliver improvements to services for disabled young people. The Committee highlighted the additional £21m received from HM Treasury and would urge the Government to ensure this additional resource is used to implement the recommendations of the previous Committee's review of service provision for disabled young people.
- The Welsh Assembly Government should be tracking its resources to make sure that its commitment to mainstreaming equality is delivered and the findings of the gender budgeting pilots to assess the level of equity in financial allocations could provide a mechanism for doing this.
- The Welsh Assembly Government should monitor local authorities to ensure that the additional 1.5% being provided to them every year to meet their equal pay commitments is being used for that purpose.

Whilst Members accepted the constraints of the budget process this year concern was expressed at the short timescales. Members agreed that in future years they would want to have the opportunity to put forward their priorities in order to influence the Government's thinking before the detail of the budget is agreed.

The Committee also raised a number of issues relating to the detail of the budget, which I will be writing separately to the Minister for Social Justice and Local Government about.

Ann Jones
Chair, Equality of Opportunity Committee

**Communities and Culture
Committee**

**Pwyllgor Cymunedau a
Diwylliant**

Alun Cairns AM
Chair of Finance Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

19 November 2007

Dear Alun,

Report on Draft Budget

In accord with Standing Order 27.3, I attach a report on the scrutiny of the Minister for Heritage concerning the draft budget.

My Committee will carry out similar scrutiny of the Minister for Social Justice and Local Government and the Deputy Minister for Housing before the end of the month. A report will be laid before the Assembly and I will send you a copy.

Yours sincerely,

Janice Gregory AM
Chair, Communities and Culture Committee

Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

Adroddiad i'r Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb Ddrafft

Cefndir

Mae Rheol Sefydlog 27.3 yn nodi:

“Caiff pwyllgorau heblaw'r Pwyllgor Cyllid ystyried cyllideb ddrafft y llywodraeth a chyflwyno argymhellion i'r Pwyllgor Cyllid yn ei chylch heb fod yn hwyrach na phythefnos ar ôl iddi gael ei gosod gerbron y Cynulliad.”

Ar 14 Tachwedd 2007, bu'r Pwyllgor yn holi'r Gweinidog dros Dreftadaeth, Rhodri Glyn Thomas AC, am y rhan honno o'r gyllideb ddrafft sy'n dod o fewn ei bortffolio ef. Nid oedd y Gweinidogion perthnasol eraill ar gael ar yr adeg honno ond mae'r Pwyllgor yn bwriadu holi'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Dr Brian Gibbons AC, a'r Dirprwy Weinidog - Tai, Jocelyn Davies AC, ar 28 Tachwedd a gosod adroddiad gerbron y Cynulliad.

Mae'r adroddiad hwn yn unol â Rheol Sefydlog 27.3 ac mae'n canolbwyntio ar adrannau Treftadaeth (Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon) y gyllideb ddrafft. .

Pwyntiau Allweddol

Mae'r Pwyllgor:

- Yn croesawu'r £36 miliwn ychwanegol ar gyfer diwylliant, y Gymraeg a chwaraeon dros y tair blynedd nesaf.
- Yn nodi nad arian ychwanegol yn y gyllideb yw'r £13.5 miliwn i dalu dyledion Canolfan Mileniwm Cymru fel y cyhoeddwyd yn natganiad y Gweinidog ar 7 Tachwedd ond daw o ganlyniad i danwario yn y blynyddoedd blaenorol.
- Yn croesawu'r £2.5 miliwn bob blwyddyn ar gyfer gwariant refeniw ar Ganolfan Mileniwm Cymru.
- Yn croesawu'r £2.5 miliwn ar gyfer gweithgareddau y tu allan i Gaerdydd a nododd ei fod yn cynnwys £1.5 miliwn i weithredu argymhellion Adolygiad Stephens a £1.0 miliwn ychwanegol ar gyfer theatr genedlaethol Saesneg – ond mae'n nodi mai i flynyddoedd 2 a 3 yn unig y mae'r elfen ddiwethaf hon yn berthnasol. Ym mlwyddyn 1 dim ond £250,000 fydd ar gyfer theatr Saesneg; i adlewyrchu'r ffaith na fydd y sefydliad mewn sefyllfa i dynnu'r swm llawn i lawr, gan fod aelodau allweddol o staff eto i'w penodi.

-
- Yn nodi bod y Gweinidog yn aros am ganlyniad adolygiad o'r diwydiant argraffu Cymraeg a'i fod yn edrych ymlaen at drafod argymhellion yr adolygiad hwn gyda'r Gweinidog.
 - Yn croesawu'r arian a ddyrannwyd ar gyfer ailwampio llyfrgelloedd, sydd i'w ddsbarthu trwy CyMAL.
 - Yn nodi sicrwydd y Gweinidog y bydd digon o arian yn y gyllideb, dros y pedair blynedd nesaf, i ariannu'r ymrwymadau diwylliant a threftadaeth yn nogfen 'Cymru'n Un'.
 - Yn nodi nad oedd y Gweinidog eto mewn sefyllfa i ddweud faint o arian a fyddai ar gael ar gyfer yr Ardd Fotaneg Genedlaethol a'i fod yn edrych ymlaen at gyhoeddiad ar y mater yn y dyfodol agos.
 - Yn nodi'r ymrwymiad i sefydlu casgliad Cymru gyfan o hanes pobl a bod CyMAL yn aros am ymatebion i ymgynghoriad ar y mater hwn. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gyhoeddiad ar y mater hwn maes o law.
 - Yn croesawu'r £13.5 miliwn i annog chwaraeon elitaidd yng Nghymru a hefyd y bwriad i groesawu gemau ysgolion y DU i Gymru yn 2009.
 - Yn nodi pwysigrwydd darparu digon o arian, tua £12 miliwn yng nghyllideb Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ar gyfer cyfieithu a meithrin dwyieithrwydd y tu allan i'r Cynulliad (er enghraifft, yn amrywiol sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd) ac mae'n bwriadu ymchwilio i'r mater hwn ymhellach gyda'r Gweinidog mewn cyfarfod dilynol.

Casgliad

Mae'r Pwyllgor yn weddol fodlon â'r arian a ddyrannwyd yn y gyllideb ddrafft ar gyfer gweithgareddau o fewn portffolio'r Gweinidog dros Dreftadaeth.

Rural Development Sub-committee

Report on the Rural Affairs Draft Budget for 2008/09

The Sub-committee reports to the Finance Committee as follows—

Introduction

1. The Sub-committee has considered the spending plans in the Welsh Assembly Government Rural Affairs portfolio as set out in the *Draft Budget Proposals 2008/09* and associated documents.
2. The Sub-committee's scrutiny of the *Draft Budget Proposals 2008/09* was limited to one committee meeting, due to tight deadlines within the budget process and the requirement for sub-committee reports to be agreed by the parent committee before publication. The scrutiny session took place on 8 November 2007, when the Sub-committee took evidence from Elin Jones AM, Minister for Rural Affairs, Huw Brodie, Director of the Department of Rural Affairs, Rory O'Sullivan, Head of the Countryside Policy Division, Norma Barry, Head of Food and Market Development Division, and Sian Andrews, Rural Affairs and Heritage Unit.

Issues raised in evidence

3. In taking evidence from the Minister, the Sub-committee sought clarification and further details on the following issues:
 - The future of the *Welsh Ewe Genotyping Scheme*;
 - Sufficiency of the level of expenditure identified in the *TB Slaughter, Payments, Costs and Receipts* budget expenditure line, details of any contributions made by the UK Government and availability of funding from reserves for an expected increase in demand;
 - Potential adequacy of the level of expenditure allocated for *TB eradication*, given the Assembly Government's TB eradication programme is still being developed;
 - Reductions in the budget expenditure line for *Sheep Compensation Revenue*;
 - The source of the monies from the current compensation packages relating to the *Foot and Mouth Disease* outbreak and any provision for similar compensation measures in 2008/09;
 - Evaluation of how the extra £1 million for marketing and promotion of Welsh products was spent;
